OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1193 (Cy. 210)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl) a Chyffordd 8A (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Awst 2019* |
| *Yn dod i rym* | *16 Awst 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl) a Chyffordd 8A (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 16 Awst 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:30 o'r gloch ar 16 Awst 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Awst 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Llanfair Pwllgwyngyll).

Y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl).